

Cyngor Cymuned Y Fali
Polisi Cymunedol Mynediad Cyhoeddus i Ddiffibriliwr
Mabwysiadwyd 19.01.22

Cyflwyniad

Mae Cyngor Cymuned y Fali yn cefnogi camau Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y mae cymunedau yn gallu cael mynediad at ddiffibrilwyr a gwella y gyfradd sy'n gallu goroesi trawiad ar y galon heb orfod mynd i'r ysbyty.

Y prif nod yw sicrhau bod pob diffibriliwr yn gallu bod o gymorth i'r nifer mwyaf o bobl gan eu galluogi i gael mynediad at ddiffibrilwyr sydd wedi eu gosod mewn mannau strategol ar adeiliadau cymunedol neu feysydd chwarae a fydd yn rhoi'r budd mwyaf o fewn cymunedau.

Cefndir

Yn hanesyddol mae diffibrilwyr wedi eu gosod mewn mannau cyhoeddus prysur, gweithleoedd neu fannau eraill ac wedi eu prynu gan sefydliadau, yn cynnwys elusennau, cymunedau lleol, busnesau a chyrff masnachol, campfeydd, ysgolion a deintyddfeydd. Mae rhai ohonynt, ond nid pob un yn agored i'r cyhoedd, rhai heb eu cofrestru ar y Gylchffordd a llawer ohonynt ddim ar gael 365 diwrnod o'r flwyddyn neu drwy'r dydd a'r nos. O ganlyniad ni all y cyhoedd fanteisio arnynt i'r eithaf.

Yn ogystal mae'n hybys na ddefnyddiwyd rhai o'r diffibrilwyr erioed oherwydd nad oedd y gwasanaethau brys yn gwybod lle roeddynt neu sut i gael gafael arnynt. Dyna'r rheswm pam bod angen iddynt gael eu cofrestru ar y Gylchffordd i fod o fudd i'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Gall sefydliadau gysylltu ag Adran Gofal Cwsmer y Gylchffordd i gael cyfarwyddiadau ymarferol a gallant gofrestru eu diffibriliwr ar Wefan y Gylchffordd:-

[The Circuit - the national defibrillator network](#)

I gofrestru ar y Gylchffordd rhaid cael cyflenwad trydan i'r diffibriliwr fel y gall y Gylchffordd dynnu sylw a hysbysu'r Gwarchodwr os bydd angen newid unrhyw eitem neu os cafodd y diffibriliwr ei ddefnyddio.

Polisi Cyngor Cymuned y Fali

Rhoi diffibrilwyr ar Adeiladau Cymunedol

Mae Cyngor Cymuned y Fali yn rheoli Parc Mwd a chan mai'r pafiliwn yw'r unig adeilad cymunedol/maes chwarae o fewn y pentref, mae'r Cyngor wedi ymroi i ddarparu diffibriliwr yn y lleoliad hwn, a hynny yn ddibynnol bod adnoddau ar gael neu bod cais yn cael ei gyflwyno gan sefydliad e.e elusen, grŵp cymunedol lleol neu glwb chwaraeon. Y meini prawf a ystyrir fydd fel â ganlyn:-

- bod y lleoliad wedi ei ddewis yn rhesymegol fel y man gorau ar gyfer diffibriliwr (ac nad oes diffibriliwr ar hyn o bryd o fewn 500m i'r safle dan sylw)

- bod cabinet diffibriliwr wedi ei gynhesu a brynwyd neu a gafodd ei gaffael trwy godi arian wedi cael ei osod ar wal allanol mewn man sydd yn hygyrch 24/7
- sicrhau bod cyflenwad trydan i gadw'r diffibriliwr ar y tymheredd cywir i arbed y padiau a'r batri rhag dirywio (bydd Cyngor Cymuned y Fali yn talu am hyn).
- bod modd sicrhau bod y diffibriliwr ar gael i gael ei ddefnyddio gan y cyhoedd 24/7
- bod y diffibriliwr yn cael ei gofrestru ar fas data y Gylchffordd
- penodi gwarchodwr ar gyfer y diffibriliwr (ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd) mewn cydweithrediad gyda'r Cyngor Cymuned.
- bod Gwarchodwr wrth gefn ar gael petai angen oherwydd absenoldeb
- sicrhau eu bod yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar sgiliau CPR/defnyddio diffibrilwir ar gyfer yr unigolion o fewn y sefydliad/grŵp.

Sefydliadau yn darparu diffibrilwyr o fewn y Gymuned ond nid ar adeiladau cyhoeddus.

Ni fydd Cyngor Cymuned y Fali yn gyfrifol am geisio cael caniatâd i leoli, rheoli neu gynnal diffibrilwyr ar adeiladau/lleoliadau nad ydynt eisos yn gyfrifol amdanynt. Cyfrifoldeb y sefydliad sydd yn yn caffael fydd hynny.

Argymhellir yn gryf yn y lle cyntaf bod sefydliadau cymunedol sy'n ystyried cael gaffael ar ddiffibriliwr yn cael cyngor sydd i'w gael yn rhwydd gan y Gylchffordd ac Ymddiriedolaeth Ambiwylans Cymru. Mae'n bosibl y byddant eisiau ystyried y meini prawf cymhwysedd y mae Cyngor Cymuned y Fali wedi eu llunio fel canllaw i sefydliadau sy'n dymuno caffael diffibriliwr i'w roi ar adeilad cymunedol. Mae'r rhain yn atgynhyrchu'r meini prawf cymhwysedd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cynllun Cymunedol Mynediad Diffibriliwr Cyhoeddus sy'n cael ei gydnabod fel arfer da:-

- bod y lleoliad wedi ei ddewis yn rhesymegol fel y man gorau ar gyfer diffibriliwr (ac nad oes diffibriliwr ar hyn o bryd o fewn 500m i'r safle dan sylw)
- bod cabinet diffibrilwir wedi ei gynhesu a brynwyd neu a gafodd ei gaffael trwy godi arian wedi cael ei osod ar wal allanol mewn man sydd yn hygyrch 24/7
- sicrhau bod cyflenwad trydan i gadw'r diffibriliwr ar y tymheredd cywir i arbed y padiau a'r batri rhag dirywio (bydd Cyngor Cymuned y Fali yn talu am hyn).
- bod modd sicrhau bod y diffibriliwr ar gael i gael ei ddefnyddio gan y cyhoedd 24/7
- bod y diffibriliwr yn cael ei gofrestru ar fas data y Gylchffordd
- penodi gwarchodwr ar gyfer y diffibriliwr (ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd) mewn cydweithrediad gyda'r Cyngor Cymuned.
- bod Gwarchodwr wrth gefn ar gael petai angen oherwydd absenoldeb

- sicrhau eu bod yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar sgiliau CPR/defnyddio diffibrilwir ar gyfer yr unigolion o fewn y sefydliad/grŵp.